



Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad	Llun	Nodiadau
------------	------	----------

Genesis 15




- 1 Dyma'r ARGLWYDD yn siarad gydag Abram mewn gweledigaeth, "Paid bod ag ofn Abram. Fi ydy dy darian di. Byddi'n derbyn gwobr fawr."




- 2 Ond meddai Abram, "O Feistr, ARGLWYDD, beth ydy'r pwynt os bydda i'n marw heb gael mab? Elieser o Ddamascus fydd yn cael popeth sydd gen i!"



- 3 Ond dyma'r ARGLWYDD yn ei ateb, "Na, dim hwn fydd yn cael dy eiddo di. Dy fab naturiol di dy hun fydd yn etifeddu dy eiddo di. Edrych i fyny i'r awyr. Cyfra faint o sêr sydd yna, os fedri di! Fel yna fydd dy ddisgynyddion di — yn gwbl amhosib i'w cyfri."



-
- 4 Credodd Abram yr ARGLWYDD, a chafodd ei dderbyn i berthynas iawn gydag e. Wedyn dwedodd yr ARGLWYDD wrtho, "Fi ydy'r ARGLWYDD sydd wedi dod â ti yma o Ur yn Babilonia. Dw i'n mynd i roi'r wlad yma i ti."



-
- 5 Ond dyma Abram yn gofyn, "O Feistr, ARGLWYDD, sut alla i fod yn siŵr dy fod ti'n mynd i'w rhoi i mi?" Yna dwedodd yr ARGLWYDD wrtho, "Tyrd â heffer, gafr a hwrdd yma — pob un ohonyn nhw'n dair blwydd oed — a hefyd turtur a cholomen ifanc."



-
- 6 Dyma Abram yn dod â'r tri anifail, yn eu hollti nhw ar eu hyd, a gosod y ddau ddarn gyferbyn â'i gilydd. Ond wnaeth e ddim hollti'r adar yn eu hanner.



-
- 7 Pan oedd fwlturiaid yn dod i lawr ar y cyrff roedd Abram yn eu hel nhw i ffwrdd.



-
- 8 Ond gyda'r nos, pan oedd hi'n machlud, dyma Abram yn syrthio i gysgu'n drwm. A daeth tywyllwch a dychryn ofnadwy drosto. Dyma'r ARGLWYDD yn dweud wrtho, "Dw i eisiau i ti ddeall y bydd dy ddisgynyddion yn cael eu hunain yn byw fel ffoaduriaid mewn gwlad ddieithr. Byddan nhw'n cael eu gwneud yn gaethweision, ac yn cael eu cam-drin am bedwar can mlynedd.



-
- 9 Ond bydda i'n cosbi'r genedl fydd wedi eu gwneud nhw'n gaethweision, ac wedyn byddan nhw'n gadael y wlad honno gyda lot fawr o eiddo. (Ond byddi di dy hun yn cael bywyd hir, braf cyn i ti farw a chael dy gladdu.)"



-
- 10 Pan oedd yr haul wedi machlud a hithau'n dywyll, dyma grochan tân oedd yn mygu a fflagl oedd yn llosgi yn pasio rhwng darnau'r anifeiliaid. Y diwrnod hwnnw dyma'r ARGLWYDD yn gwneud ymrwymiad gydag Abram: "Dw i'n mynd i roi'r wlad yma i dy ddisgynyddion di - y tir i gyd o Wadi'r Aifft i afon fawr Ewffrates.



-
- 11 Ond, roedd Abram a Sarai yn hen, a doedd ganddyn nhw ddim plant. Sut oedd Duw am gadw ei addewid? Sut oedd Abram am gael plentyn?



12 Cyfieithwyd gan
www.beibl.net



These illustrations are the copyright of Sweet Publishing and licensed
by FreeBibleImages for free download under the terms of the
Creative Commons Attribution-ShareAlike 3.0 unported license.

www.freebibleimages.org
